# ADRODDIAD PROSIECT GRANT

# 1.4.2018 – 31.3.2019

## MANYLION Y PROSIECT:

**Enw'r Sefydliad Arweiniol:**

Mudiad Meithrin (MM)

**Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol:**

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

**Enwau'r Partneriaid:**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)

Blynyddoedd Cynnar Cymru (BCC) (a elwid gynt yn Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (Wales PPA)

Mudiad Meithrin (MM)

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)

**Teitl y Prosiect:**

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

**Hyd y Prosiect:**

1.10.2014 – 31.3.2019

**Cyfanswm y Grant a Dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1.10.2014 - 31.3.2019**

**£7,433,700.80**

**Cyfnod Adrodd:**

1.4.2018 – 31.3.2019

**Swm y Grant a Dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1.4.2018 - 31.3.2019:**

**£1,634,410 - am 12 mis**

**£750,000 – cyllid ychwanegol**

**CYNNWYS:**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cefndir** | **4** |
| **2.** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **3.** | **Amcanion, Targedau a Chyflawniadau Cwlwm** | **6** |
| **4.** | **Cyllid Ychwanegol** | **14** |

# 1. CEFNDIR

Mae Cwlwm yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae Cwlwm - prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru (Wales PPA yn flaenorol) - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Chwarae. Mae'r materion hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynaliadwyedd, datblygu'r gweithlu a bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yng nghyswllt gofal plant/chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio mae'r prosiect yn llwyddo i ganfod atebion arloesol i gyfleoedd chwarae a gofal plant hyblyg a gofal cofleidiol, er mwyn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru.

Mae Cwlwm yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae'r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae'n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.

**Mae Cwlwm:**

- yn gweithio ar **lefel Cymru gyfan** i gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth busnes), arweiniad a chyngor i leoliadau gofal plant a chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- yn archwilio anghenion **datblygu**'r **gweithlu** gofal plant a chwarae ac yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gweithlu hwnnw o ran hyfforddiant.
- yn **adnabod bylchau** yn y ddarpariaeth gofal plant a chwarae ar draws Cymru ac yn dod i hyd i atebion i'r bylchau hynny, gan gynnwys atebion arloesol yng nghyswllt y ddarpariaeth mewn **ardaloedd gwledig**, **tlodi** a'r **Gymraeg**.
- yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn ardal benodol.
- yn adolygu heriau ac yn dod i hyd i **atebion** i'r heriau hynny drwy gydweithio.
- yn **cynrychioli'r** sector gofal plant ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- yn sicrhau **ansawdd cyson ac arbedion effeithlonrwydd** yng nghyswllt cymorth, arweiniad ac atebion i heriau trwy gyfarfodydd partneriaeth reolaidd.
- yn cydweithio i **chwilio am gyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector gofal plant a chwarae.
- yn **cydweithio** ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.

## 2. CYFLWYNIAD

Ar ôl sefydlu a datblygu perthynas waith cryf a llwyddiannus o fewn Cwlwm (2014-2018) i gyflawni amcanion ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru, roedd y cynllun busnes newydd a ddatblygwyd ar gyfer Cwlwm (2018-2019) yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol er mwyn cefnogi aelodau a sefydliadau nad ydynt yn aelodau o sefydliadau partneriaeth Cwlwm.

- Hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant
- Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant
- Darparu Cefnogaeth Busnes
- Cyfrannu at waith yn ymwneud ag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC)
- Cefnogi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- Adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Cyfrannu at wireddu targedau 'Cymraeg 2050'

Defnyddiwyd dull sector-gyfan er mwyn cyrraedd y gynulleidfa darged o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- AWARE
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygaeth Gofal Cymru
- Busnes Cymru
- Darparwyr a rhandeiliaid o fudiadau unigol

Fel tystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad cyllid mewn perthynas â Chonsortiwm Gofal Plant Cwlwm, darparodd bartneriaid adroddiadau monitro naratif chwarterol i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol i gefnogi'r meysydd gwaith a gyflawnwyd gan Cwlwm. Roedd yr Adroddiad Monitro yn cynnwys pedair rhan:

1. Gwybodaeth fonitro ar gyflawniad gwaith **unigol** y 5 mudiad yn ymwneud â thargedau a gwaith Cwlwm yn unig.
2. Gwybodaeth fonitro ar waith strategol partneriaid Cwlwm **ar y cyd** e.e. gwaith yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru.
3. Gwybodaeth am waith dyddiol partneriaid Cwlwm.
4. Gwybodaeth ar waith a gyflawnir gan bartneriaid Cwlwm, sy'n cael ei gyllido gan ffynonellau eraill e.e. Grantiau Awdurdodau Lleol. Roedd yr wybodaeth yma yn dangos y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd tu hwnt i gyllid Cwlwm gan esbonio'n glir i gyllidwyr eraill sut roedd eu cyfraniadau ariannol nhw yn cyfrannu at a chyfoethogi gwaith y sector.

## 3. AMCANION, TARGEDAU A CHYFLAWNIADAU CWLWM

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r wybodaeth a ddarperir o ran amcanion a chyflawniadau Cwlwm yn canolbwyntio ar waith strategol **ar y cyd** y partneriaid.

| **Amcan 1: Cynnig Gofal Plant: Cefnogi Llywodraeth Cymru yn ystod ail don cyfnod peilot y Cynnig Gofal Plant:** | |
|---|---|
| **Targed** | **Cyflawniad** |
| Cynnal 5 cymorthfeydd gwybodaeth ar y cyd ag AWARE, gyda chyfranogiad holl ddarparwyr ar draws y sector gofal plant. | Yn ystod y flwyddyn bu i bartneriaid Cwlwm barhau i gefnogi Llywodraeth Cymru (yn ôl yr angen) ar gyfer ail don cyfnod peilot y Cynnig Gofal Plant.<br><br>Roedd partneriaid Cwlwm yn rhan o ddigwyddiadau ymgysylltu yng Nghonwy, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Powys, Merthyr a Chaerdydd i helpu darparwyr baratoi at ymestyniad y Cynnig o fewn y siroedd yn ystod 2018/2019.<br><br>Yn dilyn y digwyddiadau, nododd cynrychiolwyr Awdurdod Lleol Conwy, *“Mae’r bartneriaeth weithiol gyda phartneriaid CWLWM yn gadarnhaol ac yn gefnogol. Mynychodd yr holl bartneriaid pob digwyddiad ymgysylltu i gefnogi darpariaeth y darparwyr, ac i barhau’r gefnogaeth ar lawr gwlad. Edrychwn ymlaen at ymestyn y prosiect yn ehangach ym Mwrdeistref Sir Conwy i sicrhau bod teuluoedd yn elwa o’r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy’n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.”* |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac AWARE i ddatblygu cyfres o ganllawiau ynghylch y Cynnig Gofal Plant, gan gynnwys adnodd Cynnig Gofal Plant. | Ffurfiodd partneriaid Cwlwm banel a roddodd tystiolaeth i bwyllgor ‘Plant, Pobl Ifanc ac Addysg’ Cynulliad Cymru ar y *Ddeddf Ariannu Gofal Plant (Cymru)* a edrychodd ar fecanwaith defnyddio CTEM (*HMRC*) i wirio cymhwysedd rhieni /gofalwyr sy’n edrych i gael mynediad at nawdd y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru.<br><br>Defnyddiodd bartneriaid Cwlwm yr ymgynghoriad a’r sesiwn fel modd i godi materion a oedd yn gysylltiedig â’r Cynnig Gofal Plant, gan gynnwys materion cyfredol megis plant perthynol a gofalwyr plant a’r cyfraddau amrywiol sy’n daladwy i leoliadau a ariannir ar gyfer darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a’r Cynnig Gofal Plant.<br><br>Ar y cyd cyflwynodd partneriaid Cwlwm ymateb i’r ymgynghoriad a oedd yn sail i’r sesiwn, ynghyd ag ymatebion unigol gan sefydliadau. Rhannodd partneriaid Cwlwm eu barn, gan ymateb i ymholiadau gan Aelodau Cynulliad (ACau) ar gynnwys y Ddeddf lle gweithiodd |

| | |
|---|---|
| | partneriaid Cwlwm ar y cyd trwy ddull cysylltiedig i rymuso'r pwyntiau a materion a godwyd. |
| Datblygu a darlunio un e-newyddlen sydd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y Cynnig Gofal Plant i'w dosbarthu ymysg y sector gofal plant a chwarae. | Hyrwyddodd partneriaid Cwlwm yr holl wybodaeth ar y Cynnig Gofal Plant a datblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir gwybodaeth berthnasol trwy newyddlenni Cwlwm yn Hydref 2018 a Gwanwyn 2019, a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal. Darparai'r erthyglau gwybodaeth ar:<br>• Cynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant<br>• Darpariaeth Gynnar y Cynnig Gofal Plant<br>• Ymgyrch 'Talk childcare'<br>• Blwyddyn wedyn… canlyniadau ymchwil Arad a'r CanGen ar y Cynnig Gofal Plant. |
| Ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, paratoi ar gyfer yr ail don o ardaloedd fydd yn rhan o'r Cynnig Gofal Plant drwy greu 1 newyddlen gwybodaeth dan faner Cwlwm, a mynd ati i ymgysylltu ag ymgyrch ehangach #TrafodGofalPlant Llywodraeth Cymru. | Chwaraeodd partneriaid Cwlwm rhan weithredol yn ymgyrch #TalkChildcare Llywodraeth Cymru, ac anogwyd ein haelodau i fynychu'r holl ddigwyddiadau a threfnwyd. Hyrwyddwyd y digwyddiadau'n eang trwy rwydweithiau cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol partneriaid Cwlwm. Mynychwyd pob digwyddiad gan o leiaf un partner Cwlwm er mwyn cynrychioli'r sector, ac i raeadru gwybodaeth i staff y sefydliadau a chefnogi gweithrediad y Cynnig.<br><br>Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos gyda'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno cais i'r 'Cynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant' i sicrhau ystyriaeth o anghenion y sector, ac i gefnogi amcanion ehangach y rhaglen.<br><br>Coladwyd gwybodaeth ynglŷn â chyfraddau ariannu'r Cyfnod Sylfaen trwy Gymru gyfan gan bartneriaid Cwlwm, a chyflwynwyd y canfyddiadau mewn papur i Gynlluniad Cenedlaethol Cymru.<br><br>Bu partneriaid Cwlwm yn rhagweithiol wrth hyrwyddo ail don y Cynnig Gofal plant trwy gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r ardaloedd newydd yn eu newyddlenni. |
| Mynychu cyfarfodydd a chynrychioli'r sector. | Sicrhaodd partneriaid Cwlwm y mynychwyd cyfarfodydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn cynrychioli'r sector a'i farn ar y Cynnig Gofal Plant.<br><br>Mynychodd partneriaid Cwlwm grŵp rhandeiliaid y Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Tachwedd 2018. Yn ystod y digwyddiad cyflwynwyd canfyddiadau Gwerthusiad Gweithrediad Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru; yn rhan o'r gwerthusiad gafodd partneriaid Cwlwm eu cyfweld, a chyfrannodd hwy i'r canfyddiadau. |

| | |
|---|---|
| Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu:<br><br>• Bod llais y sector wedi'i gynrychioli mewn trafodaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Bod y rhaglen Gofal Plant wedi'i hybu a'i hyrwyddo ar draws y sector ehangach ac yn yr ardaloedd peilot.<br>• Gwnaed darpariaethau yn ymwybodol o fanteision y rhaglen Cynnig Gofal Plant trwy annog eu haelodau i gymryd rhan mewn digwyddiadau a threfnwyd a thrwy rannu'r holl wybodaeth berthnasol drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau. | |
| **Amcan 2: Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant: Cefnogi hanfodion Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru:** | |
| Mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r gyfres newydd o gymwysterau ar gyfer y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar a pharhau i gynrychioli'r sector trwy gefnogi eu datblygiad a chyflawniad. | Yn ystod y flwyddyn bu partneriaid Cwlwm yn hyrwyddo'n rhagweithiol ac yn codi ymwybyddiaeth o ystod newydd o gymwysterau trwy sicrhau bod newyddion ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau newydd a chyflawniadau yn cael eu rhannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we, newyddlenni ac ati.<br><br>Sicrhaodd partneriaid Cwlwm bod gan y sector lais yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cymwysterau newydd trwy weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, City & Guilds, CBAC, Cymhwysterau Cymru a rhandeiliaid eraill. Trwy weithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn roedd partneriaid Cwlwm yn medru tynnu ar eu sgiliau ac arbenigedd i roi cyngor adeiladol ac adborth manwl ar bob agwedd o'r ystod o gymwysterau. |
| Cefnogi datblygiad Rhaglen *ESF* 'Cynnydd ar gyfer Llwyddiant' (P*FS*) a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'r cyllid sydd ar gael i gefnogi'r gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar i wella sgiliau. | Parhaodd y Rhaglen CaLl i fod o dan ddatblygiad yn ystod y flwyddyn a fu, er i bartneriaid Cwlwm fynychu cyfarfodydd perthnasol pryd y cynhelir, a rhoddodd hyn mewnwelediad ar ddatblygiadau'r dyfodol. Rhannwyd unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd o'r cyfarfodydd gyda'r sector. |
| Hyrwyddo ac ysgogi'r galw ar gyfer y rhaglen brentisiaethau ymhlith y gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar. | Trwy'r flwyddyn hyrwyddodd ac ysgogodd parterniaid Cwlwm y galw am gynllun Prentisiaeth y gweithlu mewn amryw o ffyrdd. Gweithiodd PACEY yn agos gydag Educ8, sy'n darparu prentisiaethau yng Nghymru i sicrhau bod gan ofalwyr plant mynediad at hyfforddiant perthnasol o safon sy'n diwallu eu hanghenion, a phrofiadau/sgiliau a lleoliadau unigryw. Gweithiodd NDNA Cymru yn agos gyda'i rhaglen cyflogaeth wedi ei chynnal, 'Childcare Works' yn y gogledd a'r de. Cyhoeddodd BCC erthygl cynhwysfawr yn hyrwyddo Prentisiaethau Gofal Plant yn rhan o rifyn y Gaeaf eu cylchgrawn aelodau. Parhaodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i recriwtio a hyfforddi Prentisiaid Gwaith Chwarae dros e-bost, cyfryngau cymdeithasol a chyswllt wyneb yn wyneb. |
| Cymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu ac ymgynghori i gefnogi'r gyfres newydd o gymwysterau. | Ni ddigwyddodd yr ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r cymhwysterau newydd yn ystod y flwyddyn. Er hynny, cyfrannodd partneriaid Cwlwm i nifer o ddigwyddiadau |

| | |
|---|---|
| | ymgynghori parthed y cymhwysterau newydd, gan roi cyngor arbenigol ac adborth ynglŷn â'r cymhwysterau. |
| Mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, cydweithio i ddatblygu rhaglen hyfforddiant cenedlaethol i gefnogi'r cymwysterau newydd a'r cyfleoedd ehangach ar gyfer DPP drwy lwybrau arbenigol a dilyniant. | Yn ystod y flwyddyn gweithiodd partneriaid Cwlwm gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar yr ymgyrch 'Gofalwn / We care' gan fynychu cyfarfodydd i drafod datblygiadau a'r cynllunio o amgylch lansiad yr ymgyrch. Darparodd partneriaid Cwlwm adborth i GCC ar y syniadau arfaethedig y tu ôl i'r ymgyrch, a gafodd hyn ddylanwad ar y penderfyniadau terfynol. Hyrwyddwyd yr ymgyrch i'r sector trwy ddefnydd y cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we ac o fewn newyddleni Cwlwm.<br><br>Parhaodd partneriaid Cwlwm i fynychu cyfarfodydd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i egluro anghenion hyfforddiant y sector fel bod modd ystyried y rhain wrth ddatblygu'r rhaglen hyfforddiant cenedlaethol. |
| Mewn partneriaeth â 'SkillsActive' a phartneriaid eraill, cydweithio i gefnogi'r sector chwarae fel y bo'n briodol, gan ystyried eu hanghenion cymwysterau. | Gyda chymorth partneriaid Cwlwm, ymgyrchodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i adfer Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru), yr unig gymhwyster Gwaith Chwarae Lefel 5 sydd ar gael trwy'r Fframwaith Prentisiaeth, ac felly'r unig lwybr a ariannir i gyflawni'r cymhwyster hwn yng Nghymru.  Trwy fynegi pryder a chyfathrebu gyda'r corff dyfarnu (NCFE CACHE) a PETC, llwyddon i gael y corff dyfarnu i gytuno adfer y cymhwyster, ac i wneud cais i Cymwysterau Cymru am estyniad. Maent yn disgwyl cadarnhad, er os ceith y cymhwyster ei ymestyn bydd y niferoedd sy'n ei ddewis yn destun adolygiad ym mis Awst 2020 i sicrhau ei fod dal yn ddichonadwy ar gyfer NCFE CACHE.<br><br>Parhaodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eglurder i'r sector gyda'r gofynion bod yr holl darpariaethau sy'n cynnig Gofal Cofledidiol yn meddu ar staff gyda hyfforddiant Gwaith Chwarae. Mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2019 i drafod y Cwestiynau Cyffredin deuthum |
| Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu:<br><br>• Bod y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae wedi helpu i hybu datblygiad y cymwysterau newydd<br>• Bod cymorth a chefnogaeth i'r sector i dderbyn yr hyfforddiant cywir wedi ei ddarparu<br>• Pan fydd y cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno, byddant yn cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y sector a'r gweithlu er mwyn cymhwyso uwch-sgilio<br>• Bydd y gweithlu'n parhau i wella a chodi sgiliau er mwyn cyfrannu at godi ansawdd ar draws lleoliadau gofal plant a chwarae | |

<table>
<tr><th colspan="2">Amcan 3: Cefnogaeth Busnes: Ennyn dealltwriaeth well o dirwedd cymorth busnes ar gyfer y sector ac i sicrhau'r gefnogaeth briodol:</th></tr>
<tr><td>Nodi bylchau, meysydd dyblygu, adnabod cryfderau ac arbenigedd ac ystyried pa welliannau y gellir eu gwneud wrth archwilio ffyrdd o gydweithio a mecanweithiau croesgyfeirio.</td><td rowspan="5">Parhaodd partneriaid Cwlwm i weithio gyda Busnes Cymru ac Awdurdodau Lleol i ennyn dealltwriaeth well o dirwedd cymorth busnes sydd ar gael i’r sector. Cwblhawyd gweithgaredd mapio darpariaeth gan bartneriaid Cwlwm yn manylu’r lefel o gymorth busnes a chynnigir gan bartneriaid unigol; rhennir y wybodaeth hon gyda Busnes Cymru. Yn dilyn digwyddiadau rhwydweithio busnes, ymgymerodd partneriaid Cwlwm â dadansoddiad o’r data, gan rannu’r ardaloedd sydd angen eu gwella i gategorïau penodol, sef: Cefnogaeth Busnes, yr Iaith Gymraeg, Rheoleiddiau, y Cynnig Gofal Plant a’r Gweithlu. Roedd y gweithgaredd yn fodd i adnabod camau gweithredu i bartneriaid Cwlwm, Busnes Cymru neu’r Awdurdodau Lleol. Cyhoeddwyd erthyglau gan bartneriaid Cwlwm ar y categorïau penodol o fewn eu newyddlenni.<br><br>Yn dilyn yr ymarferiadau hyn, cyflwynwyd yr wybodaeth i Carmel Barry gan bartneriaid Cwlwm (apwyntiwyd Carmel gan Lywodraeth Cymru i cefnogi Cwlwm  i fapio’r ystod o gymorth busnes sydd ar gael). Ar hyn o bryd mae Carmel yn mynd trwy’r broses o adnabod, categoreiddio a chrynhoi’r holl ffynonellau o gefnogaeth, yn unol â phenawdau cefnogi busnes penodol. Mae’r gwaith yn parhau, er hynny, y nod terfynol yw  yw y bydd yr holl wybodaeth ar gael i Busnes Cymru, Cwlwm ac Awdurdodau Lleol fel eu bod yn gwybod at bwy i fynd am gefnogaeth amrywiol ar ran lleoliadau.<br><br>Rhannwyd yr holl wybodaeth berthnasol ynglŷn â diweddariadau cefnogaeth busnes a digwyddiadau trwy sianeli cyfrwng cymdeithasol partneriaid Cwlwm, safle we Cwlwm a newyddlenni. Yn rhan o’r wybodaeth hon oedd y Cynnig Gofal Plant, Brexit, Grant Gofal Plant Busnes Cymru, diweddariad ar Bensiynau, Datblygu Perthnasau Cyflogaeth Dda act ati.</td></tr>
<tr><td>Nodi ac ystyried y dulliau cymorth mwyaf priodol a'r mecanweithiau i ddiwallu anghenion darparwyr gofal plant, yn unol â chanfyddiadau’r digwyddiadau rhwydweithio busnes</td></tr>
<tr><td>Dadansoddi’r canfyddiadau o’r digwyddiadau rhwydweithio cefnogi busnes ac ystyried pa welliannau gellir eu gwneud i ddarparu gwasanaethau cymorth ar y cyd.</td></tr>
<tr><td>Mewn partneriaeth gyda Busnes Cymru ac Awdurdodau Lleol datblygu'r strwythur mwyaf priodol, fesul ardal Awdurdod Lleol, a chytuno proses o atgyfeirio rhwng gwasanaethau cymorth busnes ar y cyd</td></tr>
<tr><td>Rhannu gwybodaeth a gafwyd ar lefel leol a chenedlaethol trwy wefan Cwlwm a’r cyfryngau cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu:<ul><li>Bod gan y sector dealltwriaeth gwell o’r gefnogaeth busnes sydd ar gael iddynt fel darparwyr</li><li>Bydd lleihad mewn dyblygu gwaith yn lleol a chenedlaethol</li><li>Bydd strwythur clir mewn lle o atgyfeirio’r sector i’r darparwyr cymorth busnes priodol.</li></ul></td></tr>
</table>

| **Amcan 4: Gwaith yn ymwneud ag AGC: Cefnogi'r ymdrech i godi ansawdd ar draws y sector:** | |
|---|---|
| Cefnogi AGC wrth hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gyhoeddi sgoriau darpariaethau gofal plant yn eu hadroddiadau harolygu, fel rhan o broses sicrwydd ansawdd a gwella prosesau a darparu mewnbwn sector ac adborth i gefnogi'r broses. | Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos gydag AGC i hel tystiolaeth ar weithrediad system graddau i ddarpariaethau gofal plant a lleoliadau chwarae.<br><br>Datblgwyd a hyrwyddwyd holiadur pedwar cwestiwn ar gyfer darprariaethau gofal plant a chwarae.<br>Derbyniwyd 108 ymateb, gyda 96% yn datgan bod y rheswm tu ôl i'r sgôr wedi ei egluro'n drylwyr, a 76% yn cytuno gyda'r sgôr a roddwyd.<br><br>Derbyniwyd adborth ychwanegol o'r holiadur, a rhannwyd hwn gyda AGC i gefnogi datblygiad cyfredol y system a dull sgorio.<br><br>Yn ystod y flwyddyn mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm digwyddiadau Ymgysylltu gyda Darparwyr AGC, a chyfrannu at weithdai ar weithrediad y graddau. Cyhoeddwyd unrhyw ddatblygiadau yn ymwneud â'r graddau ar wefan Cwlwm a thrwy gyfryngau cymdeithasol Cwlwm.<br><br>Parhaodd partneriaid Cwlwm i gyfarfod yn rheolaidd â'r AGC i drafod materion cenedlaethol, gan gynnwys pryderon parthed a buddiannau sgorio'r darpariaethau, fel y codwyd gan y sector. |
| Darparu adborth a phrofi gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys symud i gofrestru ar-lein. | Mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm cyfarfod AGC yn ystod mis Tachwedd a darparu adborth manwl wrth brofi'r gwasanaethau ar-lein. |
| Gweithio gyda AGC i ddatblygu dogfen cwestiynau cyffredin i gefnogi newidiadau i'r GDG yn 2018, os bydd galw. | Cynrychiolwyd Cwlwm gan PACEY, a weithiodd gyda AGC i ddatblygu canllaw a Chwestiynau Cyffredin. Wedi derbyn cadarnhad ar nifer o bwyntiau allweddol, aeth AGC ati i gyhoeddi canllaw diwygiedig ac atebion i rai o'r cwestiynau mewn perthynas â gwiriadau GDG a oedd yn berthnasol i holl ddarparwyr gofal plant a chwarae yng Nghymru, gan gynnwys manylion taliadau gwiriadau GDG y dyfodol. |
| Cefnogi AGC o ran casglu llais plant a rhieni trwy ddefnydd holiaduron ar-lein. | Cyfrannodd partneriaid Cwlwm i ddyluniad holiadur ar-lein rhiant/staff/plentyn, gan roi'r adborth terfynol ar yr holiaduron hyn yn rhan o chwe digwyddiad cyfranogi a chynhaliwyd gan AGC ledled Cymru. |
| Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu<br><br>• Bod llais y sector wedi'i gynrychioli mewn trafodaethau cenedlaethol gydag AGC<br>• Bod ystyriaethau lles, diogelwch ac ansawdd wedi bod yn ganolog wrth arolygu ac adrodd ar ansawdd darpariaethau gofal plant a chwarae. | |

| Amcan 5: Bil (bellach yn Deddf) ADY a Thribiwnlys: Yn dilyn cyhoeddi'r Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), cefnogi Llywodraeth Cymru a'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae i: | |
|---|---|
| Cydlynu a chynrychioli'r sector ar yr holl fforymau perthnasol i ddatblygu arferion sy'n ymwneud â'r Bil (bellach yn Ddeddf). | Mynychodd partneriaid Cwlwm yr holl fforymau perthnasol i ddatblygu ymarferion yn ymwneud â'r Bil. Ar ôl mynychu Diwrnod Cronfa Arloesedd ADY - y Blynyddoedd Cynnar, nodwyd pryder ynglŷn ag adnabyddiaeth gynnar o drafferthion gydag iaith a llefaredd. Nodwyd nad oedd yr un o'r prosiectau yn ymdrin â'r oedran 0-3, a bod yr holl brosiectau yn canolbwyntio ar blant oed ysgol yn unig. Dygwyd hyn at sylw Llywodraeth Cymru, gan wneud cais i sefydlu grŵp tasg lai i edrych ar blant 0-3 oed, a fydd yn mynd i'r afael â'r cyfnod cyn-sylfaen yn ogystal ag addysg.<br><br>Danfonwyd ymateb ar y cyd gan bartneriaid Cwlwm i'r ymgynghoriad ADY - Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Ddrafft. Yn ogystal â hynny, ym mis Chwefror mynychodd partneriaid ymgynghoriadau ar draws Cymru, a alluogodd nhw i fwydo gwybodaeth i ymateb ymgynghoriad cyffredinol Cwlwm, a hefyd i gefnogi ymgynghoriad a hybu twf gwybodaeth. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad deunyddiau codi ymwybyddiaeth ac adnoddau a'r oblygiadau'r Bil (bellach yn Ddeddf) ar gyfer y sector nas cynhelir yn y blynyddoedd cynnar. | Trwy gydol y flwyddyn bu partneriaid Cwlwm yn gweithio gyda thîm ADY y Llywodraeth ac yn rhannu'r wybodaeth / canllaw gyda'r sector trwy ddefnyddio safleoedd we a'r cyfryngau cymdeithasol yn blatfform.<br><br>Cytunodd partneriaid Cwlwm i adolygu addasrwydd ystod o ddeunyddiau Blynyddoedd Cynnar, a darparwyd adborth i Lywodraeth Cymru. |
| Ymgymryd â gwaith mapio darpariaeth ADY ar draws y sector, i gynnwys dadansoddiad o faterion a rhwystrau sy'n wynebu darparwyr gofal plant, a dadansoddiad o ddulliau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. | Cwblhawyd y gwaith mapio darpariaethau ADY ar draws y sector, a danfonwyd yr wybodaeth at Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd trosolwg o'r darpariaethau a ariannir sydd o dan reolaeth y partneriaid, yn ogystal a'r wybodaeth oedd ar gael yn lleol. Nododd partneriaid Cwlwm cawsant drafferth wrth geisio creu llun o argaeledd y darpariaethau a sut cawsant eu defnyddio gan rieni. Awgrymai partneriaid Cwlwm yn y dyfodol byddai'n fuddiol iddynt gael mynediad i wybodaeth cydwedd ynglŷn â darpariaeth ADY i hwyluso cyfeirio a chefnogi eu haelodau. |
| Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu:<br><br>• Bod y Ddeddf wedi'i hyrwyddo ar draws y sector a'r gweithlu i sicrhau bod darparwyr wedi derbyn cefnogaeth i ddeall oblygiadau'r ddeddf a'u bod yn barod ar gyfer y newidiadau i ddod<br>• Bod llais y sector wedi'i gynrychioli mewn trafodaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru<br>• Bod y sector wedi medru ymgynghori â phlant a rhieni i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu cynrychioli a'u clywed mewn darpariaethau gofal plant a chwarae o ansawdd<br>• Bod gan y sector yr wybodaeth a'r dealltwriaeth i wella o fewn eu lleoliadau | |

| Amcan 6: Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Cefnogi Llywodraeth Cymru i adolygu'r SGC: | |
|---|---|
| Cefnogi Llywodraeth Cymru drwy geisio barn darparwyr y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae i lywio adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. | Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos gyda Llywodraeth Cymru wrth lunio cwestiynau ar gyfer holiadur ar-lein i hel barn darparwyr ar y SGC. Gafodd ddolen at yr holiadur ei chynnwys ar wefan Cwlwm ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â newyddlen Cwlwm. Casglodd partneriaid Cwlwm barn y sector a chyflwynwyd y canfyddiadau mewn adroddiad manwl a chynhwysfawr i Lywodraeth Cymru. |
| Mynychu cyfarfodydd lleol, taleithiol a chenedlaethol i gynrychioli'r sector. | Parhaodd partneriaid Cwlwm i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cynrychiolaeth y sector mewn perthynas ag adolygiad y SGC.<br><br>Ym mis Mawrth cafwyd diweddariad ar adolygiad y SGC gan Anne Pound yn rhan o gyfarfod Cwlwm. Roedd y cyfarfod yn gyfle i bartneriaid Cwlwm trafod y canfyddiadau ac i leisio unrhyw bryderon. |
| Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu:<br><br>• Bod llais y sector yn wedi'i gynrychioli mewn trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru<br>• Bod ymarferwyr wedi eu grymuso i gymryd rhan yn natblygiad yr NMS a bydd hyn yn eu cefnogi i weithredu newidiadau | |
| **Amcan 7: 'Cymraeg 2050': Yn dilyn cyhoeddi strategaeth iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, cefnogi eu targed uchelgeisiol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050:** | |
| Datblygu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. | Gweithiodd partneriaid Cwlwm gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu dealltwriaeth o ystod sgiliau ac anghenion hyfforddiant y gweithlu i hysbysu datblygiad a darpariaeth cyrsiau iaith Gymraeg pwrpasol ar gyfer y sector.<br><br>Annogwyd y gweithlu i wneud defnydd o'r 'Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg'; teclyn sy'n darparu dangosydd syml ond cynhwysfawr o sgiliau iaith Gymraeg unigolyn. Galluogodd y 'Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg' i bob cyfranogwr gael gwell dealltwriaeth o'i lefel sgil iaith Gymraeg, ac i'r cyflogwr gael trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg ei weithwyr.<br><br>Rhwng Ebrill 2018 a Chwefror 2019 llwyddodd 753 o unigolion, trawsdorriad o'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, i greu cyfrif unigol ar y gwefan Dysgu Cymraeg, ac i gwblhau un neu fwy o'r pedwar profion sgiliau. Hefyd, yn ystod y flwyddyn cefnogodd partneriaid Cwlwm datblygiad peilot cyrsiau hyfforddiant yng Ngogledd a De Cymru (sef, wyth cwrs Gofal Plant ac un Gwaith Chwarae). Rhannwyd y cyrsiau |

<table>
<tr><td></td><td>peilot i bum model gwahanol ac i bedair lefel, sef mynediad, sylfaen, canolradd a phellach.  Cafodd oddeutu 65 unigolyn mynediad i'r cyrsiau.<br><br>Danfonwyd yr holl ddata perthnasol at y GDCG. Yn ystod 2019 bydd y GDCG yn cwblhau cyfres o gyrsiau ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Bydd y cyrsiau hyn yn darparu llwybr dilyniant i'r gweithlu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>Ar ben hynny, roedd partneriaid Cwlwm wedi recriwtio (neu roeddent ynghanol y broses recriwtio) Cydlynwyr Cefnogi'r Iaith Gymraeg, a ariannir gan y GDCG i gefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.</td></tr>
<tr><td>Cynyddu capasiti mewn darpariaeth Gymraeg.</td><td>Parhaodd partneriaid Cwlwm gyda'u gwaith diflino i gynyddu capasiti mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy:<br>• Agor darpariaethau newydd<br>• Ymestyn oriau agor<br>• Darparu gofal cofleidiol<br>• Agor 7 Cylch Meithrin newydd y tu allan i brosiect Sefydlu a Symud Mudiad Meithrin.<br>Agorodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 4 Clwb Gofal Plant Allan o'r Ysgol trwy brosiectau Gofal Plant a Chwarae.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflawnodd partneriaid Cwlwm y targedau hyn, sy'n golygu:<br><br>• Bod tystiolaeth ar gyfer creu a darparu amrywiaeth o adnoddau iaith ar gyfer eu defnyddio o ddydd i ddydd mewn darpariaethau gofal plant a chwarae<br>• Bod rhaglenni hyfforddiant wedi eu cyllido a'u cydlynu gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant iaith ar draws y continwwm yn cael eu cefnogi<br>• Bydd cynnydd yn nefnydd o'r Gymraeg mewn nifer uwch o leoliadau cyfrwng Saesneg / dwyieithog</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyllid Ychwanegol: Cefnogi Cwlwm i gwrdd â galwadau ychwanegol ar y consortiwm gan gynnwys paratoadau Brexit, yr agenda Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a gweithio gyda'r sector gofal plant a chwarae i ddefnyddio cyllid cyfalaf sydd ar gael o dan y Cynnig Gofal Plant:</td></tr>
<tr><td>Paratoadau Brexit.</td><td>Gwnaeth partneriaid Cwlwm cynrychioli a chefnogi'r sector drwy ddarparu gwybodaeth cyfredol ynglŷn â sefyllfa newidiol Brexit trwy newyddlennau a'r cyfryngau cymdeithasol.  Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r CGGC  i drafod effaith Brexit at y sector Gofal Plant a Chwrae, ac rydym yn parhau gyda'r gwaith o fonitro unrhyw effaith geir Brexit ar y gweithlu.</td></tr>
<tr><td>Yr agenda Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar</td><td>Daeth LlC i gyfarfod Cwlwm ym mis Mawrth i roi cyflwyniad ar waith yr agenda AGPC. Bydd Cwlwm yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ac i yrru'r agenda wrth i'r strategaeth cael ei datblygu, ac i gynrychioli'r sector mewn cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol yn ôl angen.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Cyllid cyfalaf ar gael o dan y Cynnig Gofal Plant | Cefnogodd partneriaid Cwlwm darparwyr wrth iddynt ymgeisio am grantiau cyfalaf gan yr Awdurdodau Lleol. Cafodd Cwlwm fewnbwn i'r ffurflenni cais, gan gynrychioli'r sector ar baneli cyllido o fewn rhai o'r Awdurdodau Lleol. |
| Capasiti | Cynyddodd costau partneriaid Cwlwm, tra arosodd lefelau incwm yn weddol gwastad. Parhaodd Cwlwm i fuddsoddi er mwyn cryfhau seilwaith, gwydnwch sefydliadol a chapasiti er mwyn gwella eu cynnig i aelodau, lleolliadau a'r sector yn gyffredinol. |